**Dyddiad**/Date 26 Ionawr 2024
**Gofynnwch am**/Ask for Tîm Mynediad at Ysgolion
**Rhif Ffôn**/Telephone 01446 700111
**Ffacs**/Fax 01446 709376
**e-bost**/e-mail admissions@valeofglamorgan.gov.uk

**Cyngor Bro Morgannwg**
Cyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau,
Y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, CF63 4RU
Rhif Ffôn: (01446) 700111 Ffôn testun: (01446) 741219

**The Vale of Glamorgan Council**
Directorate of Learning and Skills,
Civic Offices, Holton Road, Barry CF63 4RU
Telephone: (01446) 700111 Textphone: (01446) 741219

www.valeofglamorgan.gov.uk/cy
www.valeofglamorgan.gov.uk

Annwyl Riant/Gofalwr

**DERBYN I YSGOL FEITHRIN: MEDI 2024 - GORFFENNAF 2025**

Ymdrinnir â phob derbyniad i Unedau ac Ysgolion Meithrin Cymunedol Bro Morgannwg gan adran Mynediad at Ysgolion y Cyngor. Rydym yn deall eich bod chi o bosibl â diddordeb mewn lle mewn ysgol feithrin gan fod eich manylion wedi'u rhoi i ni naill ai gennych chi yn uniongyrchol neu drwy ysgol. Bydd eich plentyn yn gymwys i gael lle rhan amser mewn ysgol feithrin o'r tymor ar ôl ei ben-blwydd yn dair oed. Os hoffech wneud cais am le mewn ysgol feithrin am y flwyddyn academaidd nesaf mae'n rhaid i chi wneud cais ar-lein cyn y dyddiad cau, sef **15 Mawrth 2024**. Ewch i **https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/admissions/Nursery-Admissions.aspx** i gael mwy o wybodaeth.

Bydd angen i chi wneud cais am le nawr os cafodd eich plentyn ei eni **rhwng 1 Medi 2020 a 31 Mawrth 2022**, hyd yn oed os ydych chi wedi mynegi diddordeb yn yr ysgol neu gyda ni o'r blaen.

**NEWIDIADAU TREFNIADAETH YSGOLION**

**Ysgol y Bont-faen**
Er mwyn ateb y galw cynyddol am addysg gynradd yn ardal y Bont-faen, daeth Ysgol Gyfun y Bont-faen yn ysgol 3-19 oed o fis Medi 2023, gan ddarparu 210 o leoedd meithrin.

Bydd y dalgylch ar gyfer y cyfnod cynradd yn Ysgol Gyfun y Bont-faen yn adlewyrchu dalgylch Ysgol Gynradd y Bont Faen. **Fel gyda'r holl geisiadau, mae'n bwysig bod rhieni'n cyflwyno mwy nag un dewis ysgol ar eu ffurflen gais.**

**Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas**
Er mwyn bodloni'r gofynion ar gyfer darpariaeth feithrin yn yr ysgol, sefydlwyd uned feithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Nicolas ar gyfer Medi 2023 gyda 24 lle ar gael i rieni plant oedran meithrin wneud cais amdanynt. Adeiladwyd adeilad ysgol newydd gyda 24 o leoedd meithrin rhan amser ychwanegol i gymryd lle'r adeilad blaenorol yr ysgol.

**Fel gyda'r holl geisiadau, mae'n bwysig bod rhieni'n cyflwyno mwy nag un dewis ysgol ar eu ffurflen gais.**

Mae mwy o wybodaeth am Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor ar wefan y Cyngor: **https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/schools_in_the_vale/21st-Century-Schools/21st-Century-Schools.aspx**

**PROSES DERBYNIADAU AR-LEIN**

Mae'r broses hon yn gyflym ac yn rhwydd ei defnyddio ac mae wedi ei gwneud yn symlach o lawer i rieni wneud cais am leoedd yn ysgolion Bro Morgannwg. Bydd manylion llawn y broses ar gael ar y dudalen Derbyniadau Meithrin ar wefan y Cyngor. Cyn gwneud cais, dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod wedi darllen **Arweiniad Rhieni i Dderbyniadau Ysgolion** sydd hefyd ar gael ar dudalennau Derbyniadau Meithrin gwefan y Cyngor.

Gwneud cais trwy wefan y Cyngor yw'r dull sy'n well gennym oherwydd ei fod yn rhoi sicrwydd i rieni o broses saff a diogel o wneud cais a chydnabyddiaeth ar unwaith fel y gallwch fod yn siŵr

bod eich cais wedi ein cyrraedd. Fodd bynnag, os am unrhyw reswm rydych yn methu gwneud cais fel hyn, cysylltwch â ni a byddwn yn trefnu ffurflen gais bapur, neu fel arall gallech gasglu un o'r dderbynfa yn y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri.

Caiff unrhyw gais a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau ei gofnodi fel cais hwyr, ac mae'n bosibl y bydd yn arwain at le'n cael ei wrthod i'ch plentyn yn eich meithrinfa o ddewis os bydd y galw yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael. Dylai rhieni nodi na fydd sicrwydd y caiff plant sy'n mynychu uned feithrin ysgol barhau eu haddysg yn yr un ysgol yn oedran y dosbarth derbyn. Bydd angen i chi wneud cais i'r Awdurdod am le mewn dosbarth derbyn, hyd yn oed os oes angen ysgol eich dalgylch arnoch. **Os ydych yn dymuno gwneud cais am le mewn ysgol Feithrin yr Eglwys yng Nghymru a Gynorthwyir neu Gatholig, mae'n rhaid i chi wneud cais yn uniongyrchol i'r ysgol gan fod yr ysgolion hynny'n ymdrin â'u derbyniadau eu hunain.**

**Y Cynnig Gofal Plant**

Mae'r Cynnig Gofal Plant yn rhoi cyfle i rieni plant 3 a 4 oed sy'n gweithio ac sy'n gymwys i dderbyn arian gofal plant ar gyfer hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

Mae plant yn dod yn gymwys ar gyfer y cyllid yn dilyn y tymor pan fyddant yn troi'n dair oed. Cyhyd ag y bo'r rhieni'n parhau i fod yn gymwys, mae'r cyllid ar gyfer gofal plant yn parhau nes y bydd y plentyn yn mynd i addysg llawn amser. Mae cymorth ychwanegol ar gael i blant ag anghenion ychwanegol, ar gyfer hyfforddiant, cyfarpar neu staffio mewn darpariaeth gofal plant.

Rhaid i rieni fod mewn gwaith neu wedi'u cofrestru ar gwrs Addysg Bellach neu Addysg Uwch sy'n para o leiaf 10 wythnos. Ar gyfer rhieni sy'n gweithio, mae meini prawf isafswm ac uchafswm enillion yn berthnasol.

Yn ystod y tymor, gallech gael arian ar gyfer hyd at 17.5 awr yr wythnos o ofal plant gan ddarpariaeth gofal plant cofrestredig.

Yn ystod gwyliau'r ysgol, gallech gael arian ar gyfer hyd at 30 awr yr wythnos o ofal plant gan ddarpariaeth gofal plant cofrestredig yn ystod tair wythnos benodol y tymor.

I gael rhagor o wybodaeth ac i weld y meini prawf cymhwysedd, dyddiadau agor ceisiadau, a'r ffurflen gais ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, ewch i: www.valeofglamorgan.gov.uk/cynniggofalplant

Cysylltwch â'r llinell gymorth Cynnig Gofal Plant gydag unrhyw ymholiadau am y Cynnig Gofal Plant ac am ddod o hyd i ofal plant addas.

Ffoniwch 03000 628628 neu E-bostiwch childcareoffer@valeofglamorgan.gov.uk

Yn gywir

**Tîm Mynediad at Ysgolion**
**Y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau**